

Julie Morgan AC

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

27 Ionawr 2020

Annwyl Ddirprwy Weinidog,

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Ionawr 2020 yn cadarnhau eich bod wedi gosod Memorandwm Esboniadol diwygiedig mewn perthynas â'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) (y Bil).

Ar 13 Medi 2019, ysgrifennoch at y Pwyllgor yn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar y goblygiadau ariannol o'r Bil. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi eich bod yn derbyn y mwyafrif o'n hargymhellion a'n casgliadau.

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod rhai o'r diwygiadau yn y Memorandwm Esboniadol o ganlyniad uniongyrchol i chi weithredu argymhellion y Pwyllgor a bod data ychwanegol ar gael ers cyhoeddi'r Memorandwm Esboniadol gwreiddiol a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod cyfanswm cost y Bil wedi cynyddu o ystod o rhwng £2.3m - £3.7m i £6.2m - £7.9m.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn mai dyma natur y broses graffu ac rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ein hysbysu o'r newidiadau a wneir i Femoranda Esboniadol, yn unol â'n hargymhelliad yn ein hadroddiad ar Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n mynd gyda deddfwriaeth.

Fodd bynnag, mae rhai o'r costau yn y Bil wedi codi'n sylweddol ers gosod y Memorandwm Esboniadol gwreiddiol ac mae costau newydd wedi cael eu nodi, gan gynnwys y canlynol:



- mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn darparu cyfanswm cost gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o £2.8m, y gost yn flaenorol oedd rhwng £1.3m - £2.7m);
- nid oedd gwybodaeth am gostau cynlluniau gwarediadau y tu allan i'r llys wedi'u cynnwys yn wreiddiol ac amcangyfrifir eu bod yn costio rhwng £810,000 a £2.5m dros y cyfnod gwerthuso (yn unol ag Argymhelliad 5 yn ein hadroddiad);
- mae costau ar gyfer staff sy'n gweithio mewn rolau diogelu y bydd angen iddynt ymglyfarwyddo â chanllawiau newydd wedi cael eu cynnwys - £882,000 dros y cyfnod gwerthuso (yn unol ag Argymhelliad 7 yn ein hadroddiad);
- costau'r grŵp Gorchwyl a Gorffen/gweithredu o £620,000 (dros 2020-21 a 2021-22);
- mae costau'r adolygiad ôl-weithredu hefyd wedi'u cynnwys - £100,000 dros y cyfnod gwerthuso (yn unol ag Argymhelliad 9).

Er cydnabod bod rhai o'r costau diwygiedig yn ymwneud â newidiadau y cytunwyd arnynt yn ystod y camau diwygio, mae eraill yn ymwneud â chostau y dylid bod wedi'u rhagweld wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n dod gyda Bil wrth ei gyflwyno gael ei gostio'n llawn ac yn gadarn.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo Datrysiaid Ariannol Bil cyn Cyfnod 2, ond gall costau gynyddu'n sylweddol yn dilyn y camau diwygio. Mae'r Pwyllgor yn deall bod angen i'r Cynulliad ddarparu ymrwymiad ariannol i Fil fynd yn ei flaen, fodd bynnag, rydym yn gweld Biliau sy'n cael eu diwygio'n helaeth yn ystod camau hwyrach pan nad oes gofyn am graffu ariannol ychwanegol.

Rhaid i'r Cynulliad allu gwneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas ag ymrwymo adnoddau. Byddwn yn cadw llygad ar y sefyllfa hon wrth inni agosáu at ddiwedd y Cynulliad hwn ac os bydd angen, byddwn yn ystyried cyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Busnes i ystyried y broses.



Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Busnes er gwybodaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Llyr', is centered within a light yellow rectangular box.

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

